

**MSFDTeam@defra.gsi.gov.uk**

**Marine Strategy Framework Directive Implementation Team  
Area 8B Millbank  
Nobel House  
17 Smith Square  
London  
SW1P 3JR**

**1 Ebrill 2014**

**Annwyl Syr / Madam**

**Ymgynghoriad ynghylch Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol: Cynigion ar gyfer Rhaglenni Monitro Morol y DU**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad DEFRA a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch '*Rhaglenni Monitro Morol y DU o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol*'. Mae gweithredu'r Gyfarwyddeb hon yn gyfle pwysig i sicrhau y caiff yr amgylchedd morol ei reoli'n gynaliadwy fel y gall pobl Cymru barhau i gael budd o'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru, DEFRA a sefydliadau a gweinyddiaethau eraill i roi rhaglen fonitro sy'n addas at y diben ar waith er mwyn mesur cynnydd tuag at Statws Amgylcheddol Da (GES). Rydym yn cefnogi'r dull cydgysylltiedig o weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ymhlith Gweinyddiaethau'r DU a chydweithrediad parhaus ag Aelod-wladwriaethau yn y Rhanbarth Morol perthnasol er mwyn sicrhau strategaethau morol cydlynol a chydgysylltiedig. Yng Nghymru, mae datblygiad presennol gwaith cynllunio morol yn gyfle pwysig i ymgorffori amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol mewn meysydd polisi morol eraill a'i gwneud yn bosibl i waith gynllunio fod yn seiliedig ar ecosystemau.

Rydym yn canmol DEFRA, Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill am eu gwaith hyd yn hyn o ran datblygu cynigion monitro ar gyfer ardal ddaearyddol mor fawr ac ar draws amrywiaeth fawr o ddisgrifyddion amgylcheddol. Serch hynny, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, erys cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i ddatblygu a mireinio dangosyddion, targedau a rhaglenni monitro sy'n addas at y diben i gyflawni gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau perthnasol, ac yn eu cynghori, ac yn cyfrannu tuag at y broses o ddatblygu'r gwaith hwn sy'n mynd rhagddi. Byddwn hefyd yn croesawu ymgynghoriad yn y dyfodol wrth i ni symud tuag at raglen fonitro fwy cyflawn.

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP  
Cambria House, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg  
Correspondence welcomed in Welsh and English

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod DEFRA a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, wrth ddatblygu'r rhaglenni monitro arfaethedig, wedi dibynnu'n fawr ar raglenni monitro sy'n bodoli eisoes ac a sefydlwyd i gyflawni rhwymedigaethau presennol. Rydym o blaid gwneud y defnydd gorau posibl o'r rhaglenni monitro presennol ac yn cytuno eu bod yn ddigonol, mewn sawl achos, i fodloni gofynion sylfaenol y Gyfarwyddeb heb fawr ddim newidiadau, os o gwbl. Fodd bynnag, mae amgylchiadau yn codi lle rydym o'r farn bod y rhaglenni monitro presennol a gynigir fel rhai arfaethedig megis y rhaglenni a gynhelir ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn annigonol o bosibl i asesu'n effeithiol y cynnydd tuag at gyflawni'r targedau a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 10 o'r Gyfarwyddeb. Er y bydd y rhaglenni sylweddol hyn yn chwarae rhan bwysig fel rhan o waith monitro Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, fe'u lluniwyd i gefnogi deddfwriaeth wahanol ac rydym yn cynghori, os na fydd unrhyw addasiadau a/neu gynnydd tymhorol a gofodol o ran ymdrech, nad ydynt ynddynt hwy eu hunain bob amser yn ddigonol at ddibenion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarae rhan allweddol i gynghori ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu rhaglenni monitro Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yng Nghymru a'i gyflawni. Er ein bod eisoes wedi gwella'r ffordd rydym yn integreiddio ein gwaith monitro morol eu hunain, a byddwn yn parhau i geisio mwy o effeithlonrwydd o ran hyn, byddai gwaith monitro estynedig neu newydd a gynigir o fewn Rhaglenni Ymchwil a Datblygu parhaus yn gofyn am adnoddau ychwanegol. Rydym yn annog DEFRA a Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau unrhyw waith monitro ychwanegol sydd ei angen yn nyfroedd Cymru er mwyn cyflawni gofynion y Gyfarwyddeb o ran adnoddau.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol. Os hoffech eu trafod ymhellach, cysylltwch â Henry Aron (Cynghorydd Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol) ar 01248 387361 neu drwy e-bost yn [henry.aron@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:henry.aron@naturalresourceswales.gov.uk)

Yn gywir

**Ceri Davies**  
**Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Gwybodaeth a Chynllunio**

## **1. Cyflwyniad**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dwyn ynghyd swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad DEFRA a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch '*Rhaglenni Monitro Morol y DU o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol*'. Mae gweithredu'r Gyfarwyddeb hon yn rhoi cyfle pwysig i sicrhau y caiff yr amgylchedd morol ei reoli'n gynaliadwy fel y gall pobl Cymru barhau i gael budd o'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Rydym yn canmol DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig am eu gwaith hyd yma o ran datblygu cynigion monitro ar gyfer ardal ddaearyddol mor fawr ac ar draws amrywiaeth o ddisgrifyddion amgylcheddol.

Ar ôl dwyn ynghyd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau Llywodraeth Cymru, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o weithredu Rhaglen Fonitro Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Er enghraifft, ni yw'r awdurdod trwyddedu morol ac rydym yn ymgymryd â'r rheoliadau monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i rannu'n ddwy adran:

1. Materion allweddol
2. Ymatebion i bedwar cwestiwn yr ymgynghoriad a lle y bo angen, sylwadau cyffredinol ar bob un o'r 11 o Ddisgrifyddion.

## **2. Materion Allweddol**

### **2.1 Dull Cydgysylltiedig**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru, DEFRA a sefydliadau a gweinyddiaethau eraill i roi rhaglen fonitro sy'n addas at y diben ar waith er mwyn mesur cynnydd tuag at Statws Amgylcheddol Da (GES). Rydym yn cefnogi'r dull cydgysylltiedig o weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ymhliith Gweinyddiaethau'r DU a chydweithrediad parhaus ag Aelod-wladwriaethau yn y Rhanbarth Morol perthnasol er mwyn sicrhau strategaethau morol cydlynol a chydgysylltiedig. Yng Nghymru, mae datblygiad presennol gwaith cynllunio morol yn gyfle pwysig i ymgorffori amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol mewn meysydd polisi morol eraill a'i gwneud yn bosibl i waith gynllunio fod yn seiliedig ar ecosystemau.

### **2.2 Defnyddio'r rhaglenni monitro sy'n bodoli eisoes a bodloni gofynion y Gyfarwyddeb**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod DEFRA a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, wrth ddatblygu'r rhaglenni monitro arfaethedig, wedi dibynnu'n fawr ar raglenni monitro sy'n bodoli eisoes ac a sefydlwyd i gyflawni rhwymedigaethau presennol. Rydym hefyd yn deall o'r ddogfen ymgynghori, mai'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yw'r rhaglenni mwyaf sylfaenol sy'n ofynnol i gyflawni rhwymedigaethau monitro'r DU ac yn y rhan fwyaf o

achosion, y cynigir 'busnes fel arfer'. Rydym o blaid gwneud y defnydd gorau posibl o'r rhaglenni monitro presennol ac yn cytuno eu bod yn ddigonol, mewn sawl achos, i fodloni gofynion sylfaenol y Gyfarwyddeb heb fawr ddim newidiadau, os o gwbl. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein hymateb i bedwar cwestiwn yr ymgynghoriad ar gyfer pob disgrifydd, mae amgylchiadau'n codi lle rydym o'r farn y bydd y rhaglenni monitro presennol a gynigir yn annigonol o bosibl i asesu'n effeithiol y cynnydd tuag at gyflawni'r targedau a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 10 o'r Gyfarwyddeb.

Yn benodol, mae disgwyliad y bydd gwaith monitro presennol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gallu bodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Er y bydd y rhaglenni sylweddol hyn yn amlwg yn chwarae rhan bwysig fel rhan o waith monitro Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, fe'u lluniwyd i gefnogi deddfwriaeth wahanol ac rydym yn cynghori, os na fydd unrhyw addasiadau a/neu gynnydd tymhorol a gofodol o ran ymdrech, nad ydynt ynddynt hwy eu hunain bob amser yn ddigonol at ddibenion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Er enghraifft, mae rhaglenni monitro'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru i'w defnyddio i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb yn gyfyngedig i ddyfroedd trosiannol a dyfroedd arfordirol a chyfyngedig yw'r dyblygu gofodol yng Nghymru. At hynny, ar hyn o bryd, mae'r gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gyfyngedig bron yn gyfan gwbl i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ac felly nid ydynt yn cynrychioli cyflwr dyfroedd ehangach Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod goblygiadau gwaith monitro morol o ran adnoddau ac mae'n awyddus i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth i nodi'r bylchau pwysig o ran lle ac amser yn y gwaith monitro presennol ac i benderfynu ar y ffordd orau o'u llenwi. Dylai unrhyw ddadansoddiad lywio'r broses o lunio polisïau morol ehangach a hoffem weld y gwaith hwn yn cael ei gysoni â datblygiad gwaith cynllunio morol yng Nghymru, y rhagwelwn y bydd yn gyfrwng hollbwysig i gyflawni amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Nid yw'r tasgau i nodi unrhyw fylchau o ran lle ac amser wedi'u nodi'n glir ar hyn o bryd yn y cynigion monitro presennol.

### **2.3 Gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu Dangosyddion, Targedau a Rhaglenni Monitro**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod gwaith yn mynd rhagddo, o ran llawer o Ddisgrifyddion, i ddatblygu a mireinio dangosyddion, targedau a rhaglenni monitro sy'n addas at y diben er mwyn bodloni gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau perthnasol, ac yn eu cynghori, ac yn cyfrannu tuag at y broses o ddatblygu'r gwaith hwn sy'n mynd rhagddi. Er enghraifft, byddwn yn parhau â'n cyfraniad at UKMAAS, ei grwpiau tystiolaeth a rhaglen ymchwil a datblygu Monitro Bioamrywiaeth y Cydbwyllgor Gwarchod Natur (CGN)

gyda'r nod o ddatblygu dangosyddion, targedau a chynigion monitro a fydd yn mynd i'r afael ag ymrwymadau monitro bioamrywiaeth forol. Byddwn hefyd yn croesawu ymgynghoriad yn y dyfodol wrth i ni symud tuag at raglen fonitro fwy cyflawn.

## **2.4 Manyllder**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell y byddai'n fuddiol pe bai'r cynigion yn cynnwys mwy o fanylion ynglŷn â gweithredu'r rhaglenni monitro a'r ffordd y byddant yn bodloni gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol Mae'r wybodaeth gryno gyfyngedig yn yr ymgynghoriad yn ei gwneud yn anodd i asesu digonolrwydd rhaglenni monitro i ddiwallu anghenion y Disgrifydd a thywys cynnydd tuag at GES.

## **2.5 Goblygiadau o ran adnoddau**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarae rhan allweddol i gynghori ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu rhaglenni monitro Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yng Nghymru a'i gyflawni. Rydym yn cydnabod bod y cynigion, ar gyfer y rhan fwyaf o Ddisgrifyddion, yn dibynnu'n fawr ar ddefnyddio rhaglenni monitro sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, ar gyfer sawl Disgrifydd (e.e. cynefinoedd môr-waelodol, cynefinoedd pelagig a sbwriel morol), mae gwaith pellach i ddatblygu dangosyddion, targedau a rhaglenni monitro addas newydd yn mynd rhagddo. Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi gwella'r ffordd y mae'n integreiddio ei waith monitro morol ei hun, a bydd yn parhau i geisio mwy o effeithlonrwydd o ran hyn, byddai gwaith monitro estynedig neu newydd a gynigir o fewn Rhaglenni Ymchwil a Datblygu parhaus yn gofyn am adnoddau ychwanegol. Rydym yn annog DEFRA a Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau unrhyw waith monitro ychwanegol sydd ei angen yn nyfroedd Cymru er mwyn cyflawni gofynion y Gyfarwyddeb o ran adnoddau.

## **3. Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad**

Ar gyfer pob Disgrifydd, atebwyd pob un o bedwar cwestiwn yr ymgynghoriad lle y bo modd. Rhoddwyd sylwadau cyffredinol hefyd pan fo'n briodol ac yn angenrheidiol.

### **3.1 Disgrifydd 1 a 4 – Pysgod**

#### **Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Yn ein barn ni, mae'r rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn annigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu dangosyddion a rhaglenni monitro ar gyfer rhywogaethau arfordirol o bysgod, rhywogaethau dŵr dwfn o bysgod a seffalopodau yn angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion y Gyfarwyddeb. Rydym hefyd yn argymhell ymestyn arolygon dŵr dwfn i ranbarth deuol Môr Iwerddon a dynesfeydd i Fôr Cymru a thrwy hynny sicrhau cwmpas

cynrychioliadol digonol o fewn yr ardal forol ranbarthol (gweler isod yr ymateb i Gwestiwn 3 isod).

**Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Strategaeth Forol y DU, Rhan 1?**

Mae'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn annigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Strategaeth Forol y DU, Rhan 1.

**Cwestiwn 3:**

**Yn dibynnu ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Er mwyn sicrhau bod y rhaglenni monitro ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, mae'n hanfodol bod y dangosyddion a'r rhaglenni monitro cysylltiedig yn cael eu datblygu ar gyfer rhywogaethau arfordirol o bysgod, rhywogaethau dŵr dwfn o bysgod a seffalopodau.

Mae arolygon o bysgod y môr megis yr Arolwg Treillio Gwaelodol Rhyngwladol wedi'u lleoli yng ngogledd Môr Iwerddon yn bennaf. Er mwyn sicrhau cwmpas cynrychioliadol digonol, rydym yn argymhell ymestyn yr arolygon o'r môr, er enghraifft i dde Môr Iwerddon a dynesfeydd Môr Cymru.

Ymhellach at y rhaglenni monitro a gynigir, rydym yn annog datblygiad adnoddau monitro ar gyfer rhywogaethau arfordirol o bysgod. Gallai'r adnoddau monitro a ddefnyddir yn rhaglen monitro pysgod morydol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr helpu i lywio'r broses o ddatblygu rhaglenni monitro ar gyfer rhywogaethau arfordirol o bysgod.

Nid yw'r ymgynghoriad yn cynnig rhaglen fonitro ar gyfer rhywogaethau ymfudol o bysgod er iddo nodi pryderon ynglŷn ag iechyd y stoc. Gellid ystyried defnyddio'r rhaglenni monitro pysgod dŵr croyw sy'n bodoli eisoes i nodi statws ac iechyd stocioau o bysgod ymfudol. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â monitro eogiaid, sewin a llysywod mewn dŵr croyw ar hyn o bryd. Yn achos eogiaid a sewin, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â gwaith monitro dwys ar ddata biolegol cyn dychwelyd pysgod yn eu llawn dwf ac mae hyn yn ein helpu i ddeall dylanwad y newid yn yr amgylchedd morol. Defnyddir gwaith monitro pysgod ymfudol mewn dalgylchoedd dŵr croyw hefyd i lywio'r gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd mewn Safleoedd Morol Ewropeaidd yng Nghymru lle ceir rhywogaethau ymfudol o bysgod.

**Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol?**

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 3 uchod.

### **3.2 Disgrifyddion 1 a 4 – Mamaliaid morol**

#### **Sylwadau Cyffredinol:**

(a) Dylai ail faint "*Criteria 1.2 Population size*" (tudalen 32) ddarllen 'cetaceans' yn hytrach na 'seals' ac mae grŵp y rhywogaeth ar goll. Er enghraifft, dylai ddarllen "*Criteria 1.2 Population size - Seals*".

(b) Dylai rhaglen fonitro effeithiol ar gyfer mamaliaid morol ei gwneud yn bosibl i newidiadau i ddangosyddion megis dosbarthiad, niferoedd a dynameg poblogaeth y rhywogaeth gael eu canfod. Yr allwedd i lwyddiant rhaglenni monitro yw hirhoedledd ac amllder y gwaith monitro nad yw wedi'i nodi'n benodol yn yr ymgynghoriad hwn. Heb y wybodaeth hon, mae'n anodd asesu a yw'r rhaglen fonitro arfaethedig yn ddigonol i ddiwallu anghenion y Gyfarwyddeb. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod adolygiad o opsiynau monitro ar gyfer mamaliaid morol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith hwn a chyfrannu ato.

(c) Cynigir y bydd y gwaith monitro presennol ar forfilod yng Nghymru o dan ofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ategu gofynion monitro Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Nid yw rhaglen fonitro bresennol y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar gyfer morloi a dolffiniaid trwyn potel yn cael digon o adnoddau ar hyn o bryd ac rydym yn argymhell y dylid ystyried datblygu rhaglen goruchwyliaeth a monitro fwy trylwyr a systematig sy'n cynnwys gwaith monitro ar amllder priodol a chyllid wedi'i neilltuo. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell y dylid gweithredu 'Opsiw 3' o ran monitro o fewn Adolygiad Monitro Mamaliaid Morol y DU gan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.

#### **Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Nid yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer mamaliaid morol yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb yn nyfroedd Cymru (e.e. fel is/ranbarth neu grŵp gofodol penodol o rywogaethau). Nid oes unrhyw waith monitro ar forloi ar lefel y boblogaeth yn cael ei wneud yng Nghymru nac ym Môr Iwerddon ar hyn o bryd a chyfyngedig iawn yw'r gwaith monitro ar forfilod. At hynny, heb wybodaeth fanylach o ran hirhoedledd ac amllder y gwaith monitro a gynigir, mae'n anodd asesu a yw'r rhaglen a gynigir yn ddigonol i ddiwallu anghenion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod adolygiad o opsiynau monitro ar gyfer mamaliaid morol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith hwn a chyfrannu ato.

#### **Cwestiwn 2:**

## **A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Strategaeth Forol y DU, Rhan 1?**

Mae'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn annigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Strategaeth Forol y DU, Rhan 1.

### **Cwestiwn 3:**

#### **Yn dibynnu ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell y dylid gweithredu 'Opsiw 3' o ran monitro o fewn y papur a baratowyd gan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur: 'Advice on monitoring Options for UK Cetaceans'. Mae Opsiw 3 yn cynnwys yn y papur y gyfres lawn o waith monitro systematig yn y DU. Rydym yn cynghori y byddai'n fuddiol pe bai cynigion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn cyfeirio at bapur y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur ac yn ei ddefnyddio wrth i gynigion gael eu datblygu ymhellach. Rydym hefyd yn cynghori y bydd angen monitro dolffiniaid trwyn potel yn amlach er mwyn bodloni gofynion monitro, rheoli ac adrodd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

### **Cwestiwn 4:**

#### **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol?**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell y dylid gweithredu 'Opsiw 3' o ran monitro yn y papur a baratowyd o dan arweiniad y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur: 'Advice on monitoring Options for UK Cetaceans'. Dylai rhaglen effeithiol sicrhau bod amlder y gwaith monitro yn ddigonol i ganfod lefel resymol o newid dros gyfnod o amser sy'n ystyrlon mewn cyd-destun rheoli a bod cyllid parhaus yn ei gwneud yn bosibl i'r rhaglenni gael eu cynnal dros gyfnod addas. At hynny, rydym yn cytuno bod angen gwneud gwaith ychwanegol er mwyn pennu llinellau sylfaen a thueddiadau ar gyfer pob rhywogaethau o famaliaid morol. Rydym hefyd yn argymhell y dylid parhau â chynllun Cymru i Forfilod wedi Tirio yng Nghymru ac ymrwymiad y DU i ariannu cynlluniau cenedlaethol megis SCANS III a Tursiops SEAS. Mae'r prosiectau cyffredinol hyn yn ategu ein gwybodaeth sylfaenol ac yn darparu data cadarn ar gyfer llinellau sylfaen a gwaith monitro. Mae'r cynllun CSIP a'r Cynllun SCANS yn hanfodol i bob math o forfil - ac yn cynnig y gofynion sylfaenol sy'n ofynnol o dan Opsiw 1 yn y papur 'Advice on monitoring Options for UK Cetaceans'.

## **3.3 Disgrifydd 1 a 4 – Adar**

### **Cwestiwn 1:**



**A yw'r rhaglenni monitro a gynnigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Mae'r rhaglen fonitro a gynnigir yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb.

**Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynnigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Strategaeth Forol y DU, Rhan 1?**

Mae'r rhaglen fonitro a gynnigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES.

**Cwestiwn 3:**

**Yn dibynnu ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Nid oes gennym unrhyw argymhellion ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni GES a'r targedau cysylltiedig. Mae gwaith monitro adar y môr yng Nghymru yn rhan o brif raglenni monitro canlynol y DU: WeBS (Arolwg o Adar Gwlyptiroedd), SMP (Rhaglen Monitor Adar y Môr) a'r cyfrifiad bob deng mlynedd o adar y môr. Ar ôl ei datblygu, dylid ystyried ymgorffori cyfrifiad y DU o Adar y Môr (sy'n cychwyn yn 2015) yn rhaglen fonitro Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ar gyfer Adar.

**Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol?**

Cyfeiriwch at ein hymateb i Gwestiwn 3.

### **3.4 Disgrifyddion 1, 4 a 6 – Cynefinoedd pelagig**

**Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynnigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Mae'r rhaglenni monitro a gynnigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Rydym yn deall y caiff 15 o fannau samplu eu dewis er mwyn sicrhau bod y gwaith monitro yn cwmpasu pob un o'r gwahanol fathau o ddŵr a geir yn nyfroedd arfordirol ac ysgafell y DU. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynglŷn â

lleoliad y 15 safle samplu a gynigir a chadarnhad a yw oes unrhyw rai ohonynt yn nyfroedd Cymru.

**Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Strategaeth Forol y DU, Rhan 1?**

Mae'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES a'r targedau cysylltiedig. Fodd bynnag, byddem yn eich annog i roi rhagor o fanylion ynglŷn â lleoliad y 15 safle samplu a gynigir a chadarnhau a oes unrhyw rai o'r safleoedd yn nyfroedd Cymru.

**Cwestiwn 3:**

**Yn dibynnu ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Rydym ar ddeall y bydd y rhaglen yn defnyddio'r rhaglenni monitro sy'n bodoli eisoes gan AFBI, Cefas, Asiantaeth yr Amgylchedd, Marine Scotland a'r Adran dros yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon, Labordy Morol Plymouth ac Asiantaeth Diogelwch Amgylcheddol yr Alban.

Rydym yn cytuno bod nifer o fylchau yn bodoli o ran y data sydd ar gael, gwaith monitro a dadansoddi ar lefel genedlaethol ac is/rhanbarthol ac yn cefnogi gwaith i ddatblygu opsiynau ar gyfer llenwi'r bylchau hyn. Byddwn yn hefyd yn cefnogi prosiect ymchwil a datblygu Lifeform a noddur gan DEFRA ar hyn o bryd a fydd, ar ôl ei gwblhau, yn nodi opsiynau ar gyfer gwella' rhaglen fonitro bresennol er mwyn darparu rhaglen monitro cynefinoedd pelagig lawn ar gyfer 2016. Fodd bynnag, os bydd gofyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â gwaith monitro pellach, bydd angen ystyried y goblygiadau o ran adnoddau a chostau yn ofalus.

**Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol?**

Cyfeiriwch at yr ymateb i Gwestiwn 3 uchod.

### **3.5 Disgrifyddion 1 a 6 – Cynefinoedd môr-waelodol**

#### **Sylwadau Cyffredinol**

(a) Yn yr ymgynghoriad, cynigir, erbyn 2014, y caiff gwaith monitro cynefinoedd ei gefnogi gan strategaeth a ddatblygir gan y Rhaglen Ymchwil a Datblygu Monitro Amrywiaeth Forol o dan arweiniad y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur. Rydym yn pryderu nad yw cynllun busnes y rhaglen ymchwil a datblygu yn adlewyrchu lefel y ddarpariaeth

y mae'r ddogfen ymgynghori yn ei hawgrymu. At hynny, mae'r rhaglen ymchwil a datblygu ar ei hôl hi ac nid yw sawl agwedd ar y gwaith a fyddai wedi bod yn gyfraniad defnyddiol i'r ymgynghoriad presennol wedi'i gwblhau. O ystyried y ddibyniaeth a roddir ar y rhaglen hon a'i phwysigrwydd o ran datblygu rhaglenni monitro ar gyfer y disgrifydd hwn, byddem yn croesawu mwy o sicrwydd ynglŷn â therfynau amser ar gyfer cyflawni allbynnau'r rhaglen.

Rydym yn cynghori bod y gwaith monitro cynefinoedd môr-waelodol a wneir ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn annigonol i ddiwallu anghenion y Gyfarwyddeb. Fodd bynnag, rydym ar ddeall y bydd y Rhaglen Amrywiaeth Morol yn datblygu argymhellion ynglŷn â monitro er mwyn sicrhau y caiff gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol eu bodloni, ac y caiff rhaglen fonitro bresennol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a gwaith monitro Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd eu hymgorffori yn y ffordd fwyaf effeithlon. Rydym yn argymhell y dylai rhaglen fonitro'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd gael ei defnyddio cymaint â phosibl o fewn cynigion monitro Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, yn enwedig o ystyried rhaglen fonitro sefydledig Cymru o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r ffaith yr ymddengys bod Gwerthoedd Cyfeirio Ffatriol y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ddangosyddion allweddol ar gyfer sawl targed ar gyfer cynefinoedd môr-waelodol.

(b) Ar yr amod y caiff dangosyddion cynefinoedd môr-waelodol eu datblygu ymhellach, mae'n debygol y bydd goblygiadau o ran adnoddau a chostau i Cyfoeth Naturiol Cymru os bydd gofyn am fwy o waith monitor o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Rydym yn argymhell y caiff y goblygiadau hyn eu hystyried yn ofalus wrth ddatblygu cynigion pellach.

## **Cwestiwn 1:**

### **A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Mae'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn annigonol ar hyn o bryd i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Fodd bynnag, fel y'i nodwyd yn yr ymgynghoriad, mae cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo i ddatblygu targedau, dangosyddion a rhaglenni monitro ar gyfer cynefinoedd môr-waelodol.

Yn ein barn ni, mae gormod o ddisgwyliad y gall gwaith monitro presennol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd fodloni gofynion y Gyfarwyddeb os na fydd unrhyw gynnydd sylweddol mewn ymdrech o ran lle ac amser. Er enghraifft, mae rhaglenni monitro'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru a ddefnyddir i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb wedi'u cyfyngu'n bennaf i un filltir forol o'r tir ac o fewn llinellau sy'n amgáu baeau. Cynigir y bydd 'Cyflwr y Cynefin' yn cael ei asesu drwy ddefnyddio data o adnoddau macro-algae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, adnodd mor wellt rhynglanwol, Mynegai Ansawdd Isfilodol ac adnodd morfeydd heli, a data gan MarClim. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o adnoddau monitro rhynglanwol y

Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi'i chyfyngu i'r draethlin a chyrrff o ddŵr trosiannol a chyfyngedig yw'r dyblygu gofodol yng Nghymru. At hynny, mae'r gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd wedi'i gyfyngu bron yn gyfan gwbl i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ac felly'n gyfyngedig o ran dosbarthiad gofodol ac o ganlyniad, ni fyddai'n gynrychioliadol o gyflwr y moroedd ehangach. Er mwyn ymdrin â chwmpas daearyddol a thopograffigol Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, rydym yn argymhell y bydd angen i raglenni monitro gael eu hehangu gryn dipyn wrth i raglenni monitro ddatblygu yn yr hirdymor.

Mae'r cynigion ynglŷn â rhaglenni monitro hefyd yn nodi y bydd angen tystiolaeth ychwanegol ar gyfer rhai dangosyddion ar gyfer cynefinoedd môr-waelodol er mwyn datblygu rhaglenni monitro cost-effeithiol, addas. Mae rhai wrthi'n cael eu datblygu a bwriedir iddynt fod yn weithredol erbyn 2014. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y bydd elfennau o'r rhaglen arfaethedig yn methu â bodloni gofynion y Gyfarwyddeb hefyd. Er enghraifft:

1. Ystod a phatrwm dosbarthu: Mae'r cynnig hwn ond yn cwmpasu cynefinoedd morfeydd heli, nad oes llawer ohonynt y tu allan i ddyfroedd trosiannol yng Nghymru.
2. Graddfeydd cynefinoedd gwaddodion rhestredig a chynefinoedd riff creigiog yn bennaf a biogenig rhestredig – Mae'r gallu i fonitro graddfeydd cynefinoedd o dan raglenni monitro presennol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd. Rydym yn argymhell bod y rhaglenni monitro sy'n bodoli eisoes yn annhebygol o ddarparu digon o ddata i asesu graddfeydd unrhyw gynefinoedd a nodwyd yn nyfroedd Cymru.
3. Cyflwr Cynefin: Cynigir y bydd cyflwr cynefin yn cael ei asesu drwy ddefnyddio data o adnoddau macro-algae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, adnodd morwellt rhynglanwol, Mynegai Ansawdd Isfilodol ac adnodd morfeydd heli, a data gan MarClim. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o adnoddau monitro rhynglanwol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi'i chyfyngu i gyrff o ddŵr trosiannol a chyfyngedig yw'r dyblygu gofodol yng Nghymru. Rydym yn argymhell y dylid ystyried cynnwys y gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd er mwyn asesu cyflwr cynefin.
4. Difrod ffisegol a chyflwr cynefin o fewn graddfa moroedd rhanbarthol: mae'r gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac ACA a gynigir yn gyfyngedig o ran cwmpas a graddfa daearyddol. Mae'r gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd wedi'i gyfyngu bron yn gyfan gwbl i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ac felly'n gyfyngedig o ran dosbarthiad gofodol ac o ganlyniad, ni fyddai'n gynrychioliadol o gyflwr y moroedd ehangach.

Mae gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yng Nghymru yn gwneud cyfraniad pwysig a sylweddol i gyflawni gofynion monitro Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Fodd bynnag, mae cyfeiriadau at y ffordd y bydd gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn cyfrannu tuag at gynigion ynglŷn â chynefinoedd môr-waelodol o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn aneglur. Byddem

yn croesawu mwy o eglurder ynglŷn â datblygu gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ymhellach o bosibl a'r ffordd y bydd gwaith monitro parhaus o dan y Gyfarwyddeb yn cyfrannu at Ddangosyddion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Dylid defnyddio gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd hefyd i gyfrannu tuag at asesu 'cyflwr cynefin' gan ei fod yn canolbwyntio ar gyflwr fel arfer ac y gallai wneud cyfraniad pwysig, gan wella cwmpas o ran amser a lle, yn ogystal â'r ystod o baramedrau sy'n cyfrannu at y targedau o ran cyflwr. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, dylai hyn gydnabod graddfeydd gofodol cyfyngedig y gwaith monitro ar hyn o bryd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r gwahaniaethu rhwng mathau o waith monitro a gynigir yn strategaeth fonitro y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.

### **Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Strategaeth Forol y DU?**

Nid yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES a'r targedau cysylltiedig. Nodir y gofyniad i ddatblygu dangosyddion pellach ar gyfer cynefinoedd môr-waelodol yn yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn gofyn am raglenni monitro newydd a bydd angen ystyried goblygiadau hynny o ran costau gweithredu ac adnoddau. Y tu hwnt i ddatblygu dangosyddion newydd a rhaglenni monitro cysylltiedig, bydd angen gwella cwmpas gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd o ran amser a lle yn sylweddol er mwyn asesu a yw GES yn cael ei chyflawni.

### **Cwestiwn 3:**

**Yn dibynnu ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Yng Nghymru, mae rhaglenni monitro'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a ddefnyddir i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb ar gyfer cynefinoedd môr-waelodol wedi'u cyfyngu i ddyfroedd trosiannol ac arfordirol yn bennaf ac mae'r gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd wedi'i gyfyngu bron yn gyfan gwbl i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol. Bydd angen gwella cwmpas y gwaith monitro presennol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn sylweddol er mwyn arwain y gwaith o gyflawni GES.

Mae cyfeiriadau at y ffordd y bydd gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn cyfrannu tuag at gynigion ynglŷn â chynefinoedd môr-waelodol o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn aneglur. Byddem yn croesawu mwy o eglurder ynglŷn â datblygu gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ymhellach o bosibl

a'r ffordd y bydd gwaith monitro barhaus o dan y Gyfarwyddeb yn cyfrannu at Ddangosyddion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Dylid defnyddio gwaith monitro o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd hefyd i gyfrannu tuag at asesu 'Cyflwr Cynefin' gan ei fod yn canolbwyntio ar gyflwr fel arfer ac y gallai wneud cyfraniad pwysig, gan wella cwmpas o ran amser a lle, yn ogystal â'r ystod o bamedrau sy'n cyfrannu at y targedau o ran cyflwr.

Byddwn yn parhau i gyfrannu tuag at y broses barhaus o ddatblygu dangosyddion ar gyfer cynefinoedd môr-waelodol a rhaglenni monitro cysylltiedig. O ystyried y gwaith sylweddol sy'n mynd rhagddo o ran datblygu targedau a dangosyddion ar gyfer cynefinoedd môr-waelodol, byddem yn croesawu rhagor o ymgynghori ynglŷn â rhaglenni monitro sy'n mesur yn erbyn y targedau hynny.

#### **Cwestiwn 4:**

#### **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol**

Monitro neu gadw golwg ar bwysedd: Mae angen gwneud rhagor o waith i ddefnyddio gwaith monitro a chadw golwg ar bwysedd yn well. Byddai hyn yn rhoi'r dystiolaeth i helpu i benderfynu a oes dylanwad anthropogenig ar newidiadau amgylcheddol i gynefinoedd môr-waelodol y sylwyd arnynt. Gall gwaith monitro pwysedd hefyd fod yn brocsi i newid amgylcheddol penodol lle ceir dealltwriaeth ddatblygedig o achos ac effaith.

Data amgylcheddol: Bydd angen data ar amodau hydrograffegol (e.e. tymheredd, halwynedd, cloroffyl, cymylogrwydd, cyflwr y môr, meteoroleg) er mwyn rhoi cyd-destun amgylcheddol i newidiadau biolegol a helpu i benderfynu ar yr hyn sydd wedi achosi newidiadau y sylwyd arnynt (lle nad yw dangosyddion eisoes yn dangos dylanwad anthropogenig yn uniongyrchol). Byddai rhaglenni gwyliadwriaeth sy'n rhoi mynediad i bamedrau â synwryddion o bell neu sy'n rhoi data o rwydwaith o gyfleusterau synhwyro sefydlog yn werthfawr iawn.

### **3.6 Disgrifydd 2 – Rhywogaethau anfrodorol**

#### **Sylwadau cyffredinol:**

(a) Bydd angen integreiddio a chysoni rhaglen fonitro Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ar gyfer rhywogaethau anfrodorol ag unrhyw ddyletswyddau monitro ac adrodd a roddir ar y DU fel rhan o Rheoliad arfaethedig yr UE ar reoli rhywogaethau goresgynnol estron.

(b) Mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â pha sefydliad(au) yng Nghymru a'r DU a fydd yn arwain y gwaith o reoli rhywogaethau anfrodorol. Hyd nes bod hyn wedi'i ddatrys, ni fydd modd datblygu rhaglen fonitro iawn. At hynny, cynhaliodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i Effaith Rhywogaethau Estron Goresgynnol yng Nghymru ym mis Mai 2013. Cyhoeddodd

canlyniadau'r Ymchwiliad ym mis Mai 2014 ac argymhellwyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru ddylai arwain y gwaith o gydgyssylltu prosesau rheoli data a mesurau rheoli ar gyfer rhywogaethau goresgynnol yng Nghymru. Pe bai'r cyfrifoldeb cyfreithiol am rywogaethau anffrodorol yng Nghymru yn cael ei roi i Cyfoeth Naturiol Cymru o ganlyniad i'r argymhellion, byddai angen cyllid a staffio ychwanegol sylweddol er mwyn gwneud iawn am absenoldeb staff o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymwneud â gwaith ar rywogaethau anffrodorol.

(c) Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori y dylai Llywodraeth Cymru ystyried llunio deddfwriaeth a chanllawiau ar Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol ar sail y newidiadau diweddar yn yr Alban er mwyn sicrhau y cyflawnir GES ar gyfer maen prawf 2.2, yn enwedig mewn perthynas â mesurau rheoli.

### **Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Nid yw'r rhaglenni monitro presennol yng Nghymru (nac yn y DU) yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Yng ngoleuni hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda nifer o bartneriaid yn y DU ac Iwerddon gan gynnwys DEFRA a CEFAS drwy'r Prosiect Llwybrau morol er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r lleoliad gorau ar gyfer unrhyw raglen fonitro a sut y câi ei chyflawni.

Hyd nes bod adroddiad ar y gwaith hwn, mae'n anodd dweud a yw'r rhaglenni a gynigir yn yr ymgynghoriad yn ddigonol. Bydd angen i unrhyw raglen fonitro a ddatblygir fod yn gost-effeithiol ac yn addas at y diben.

### **Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Rhan 1 o Strategaeth Forol y DU?**

Fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 1, hyd nes bod adroddiad ar y gwaith presennol nid oes modd dweud a fyddai'r rhaglen fonitro a gynigir yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES.

Fodd bynnag, byddem yn disgwyl mai dim ond yn rhannol ddigonol fyddai unrhyw raglen fonitro o ran adrodd drwy Ddangosydd 2.1.1 (Tueddiadau o ran niferoedd, achosion tymhorol a dosbarthiad gofodol ymhlith y rhywogaethau anffrodorol gwyllt, yn enwedig rhywogaethau anffrodorol goresgynnol, yn arbennig mewn ardaloedd o risg, mewn perthynas â'r prif fectorau a llwybrau lledaenu rhywogaethau o'r fath), o ran Maen Prawf 2.1 (Niferoedd a nodweddu rhywogaethau anffrodorol gan y wladwriaeth, yn enwedig rhywogaethau goresgynnol) ac y byddai angen datblygu mesurau rheoli ochr yn ochr â hyn er mwyn cyflawni'r Targed ar gyfer y Maen Prawf hwn (Lleihau'r risg o

gyflwyno a lledaenu rhywogaethau anfrodorol drwy reoli llwybrau a fectorau risg uchel yn well).

Yn fwy heriol na hynny bydd digonolrwydd unrhyw raglen fonitro o ran adrodd ar Faen Prawf 2.2 (Effaith amgylcheddol rhywogaethau anfrodorol goresgynnol). Mae'r targed ar gyfer y maen prawf hwn yn ymwneud â datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau allweddol sy'n wynebu risg uchel a'r dangosydd yw'r effaith a fesurir ar gynefinoedd rhywogaethau ac ecosystemau'r rhywogaethau hynny. Er mwyn mesur hyn, bydd angen datblygu dealltwriaeth o ansawdd ar gyfer y rhywogaethau, cynefinoedd a'r ecosystemau hynny yr effeithiwyd arnynt a byddem yn gobeithio y byddai'r rhaglen fonitro honno ar gyfer Dangosydd 1 (amrywiaeth biolegol) o gymorth yn hyn o beth. Ni ddylid tanamcangyfrif maint y dasg hon oherwydd ychydig a wyddys ar hyn o bryd ynghylch sut y dylid monitro effeithiau rhywogaethau anfrodorol ar raddfa rhywogaeth, cynefin ac ecosystem.

### **Cwestiwn 3:**

**Yn amodol ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Fel y nodwyd uchod, er mwyn cyflawni GES o dan Faen Prawf 2.2, bydd angen cysylltiad agos rhwng unrhyw raglen fonitro a Disgrifydd 1. Bydd angen i swyddogion arwain Disgrifyddion gydgyssylltu â'i gilydd.

Yn ein barn ni, bydd angen ymgorffori'r Confensiwn Dŵr Balast (ar ôl iddo gael ei gadarnhau) hefyd er mwyn cyflawni'r ddau darged. Dylid sefydlu'r rhaglen fonitro hon cyn gynted ag y bo modd.

### **Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol**

Er nad oes gennym unrhyw awgrymiadau pellach ar gyfer gwaith monitro ychwanegol neu fwy effeithiol, rydym yn credu'n gryf y bydd angen i unrhyw waith monitro a roddir ar waith fod yn rhan o strategaeth drawswladol ehangach. Mae'r Prosiect Llwybrau Morol yn gweithio yn y DU ac Iwerddon ar hyn o bryd i ddatblygu opsiynau monitro a rheoli ar gyfer Disgrifydd 2 Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ond bydd angen i raglenni sy'n cael eu datblygu mewn gwledydd eraill yn gyffiniol â'r DU gael eu hintegreiddio mewn strategaeth o'r fath.

## **3.7 Disgrifydd 3 – Pysgod a physgod cregyn a gaiff eu pysgota'n fasnachol**

**Sylwadau Cyffredinol:**



Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn casglu data ar gyfer rhywogaethau o bysgod a physgod cregyn a gaiff eu pysgota'n fasnachol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hyn yn bennaf.

Deallir na fydd angen unrhyw raglenni monitro newydd ar gyfer stociau masnachol a reolir o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC). Ar y cyd â monitro effeithiau cyfarpar pysgota ar gynefinoedd môr-waelodol yn Nisgrifyddion 1 a 6, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r targed o gynnal cyfradd bysgota pob stoc fasnachol ar neu islaw Gyfradd Marwolaethau Pysgodfeydd - Uchafswm Cynhyrchiant Cynaliadwy (FMSY), neu o fewn amrediad o farwolaethau pysgod credadwy sy'n gyson â FMSY. Yn ein barn ni, mae'r rhaglen fonitro a gynigir, sef samplu data o arolygon e-chwilio, samplu dalfeydd masnachol ar longau masnachol a samplu dalfeydd wrth eu glanio, yn ddigonol i ddiwallu anghenion y Gyfarwyddeb ar gyfer stociau a reolir o dan y PPC

Mae fflyd bysgota fasnachol Cymru yn cynnwys cychod bach y glannau yn bennaf sy'n pysgota stociau nad ydynt yn stociau a reolir o dan PPC megis cimwch, crancod a chregyn bylchog. Dyma dri o'r stociau nad ydynt yn stociau a reolir o dan y PPC lle y bydd y DU yn cyflwyno adroddiad ar gyflawni MSY.

#### **Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Mae'r rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer stociau a reolir o dan y PPC yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Fodd bynnag, heb fanylion pellach am y rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer stociau nas rheolir o dan y PPC, nid oes modd asesu ei digonolrwydd.

#### **Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Rhan 1 o Strategaeth Forol y DU?**

Mae'r rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer stociau a reolir o dan y PPC yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at GES. Fodd bynnag, heb fanylion pellach am y rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer rhywogaethau sy'n cael eu pysgota'n fasnachol nad oes cwotâu ar eu cyfer megis pysgod cregyn, nid oes modd asesu ei digonolrwydd.

#### **Cwestiwn 3:**

**Yn amodol ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Mae'r cynigion yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun monitro ychwanegol ar gyfer pob math o bysgod cregyn, yn ychwanegol at ofynion y Fframwaith Casglu Data. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gynghori a chynorthwyo Llywodraeth Cymru

yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni monitro ymhellach ac os oes modd, byddai'n croesawu cael manylion pellach am y cynllun monitro ychwanegol a'r terfynau amser cysylltiedig ar gyfer cyflawni. Mae'n hollbwysig bod unrhyw waith monitro ychwanegol yn addas at y diben er mwyn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb a monitro cynnydd tuag at gyflawni GES.

**Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol**

Mae'n werth ymchwilio a allai unrhyw raglenni monitro ychwanegol ar gyfer stociau pysgod cregyn nad ydynt yn stociau a reolir o dan y PPC gael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Gallai Cyfoeth Naturiol Cymru a Phrifysgolion Cymru gydweithio â Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o nodi bylchau mewn tystiolaeth yn strategol ac unrhyw raglenni monitro canlyniadol i fesur GES ar gyfer rhywogaethau o bysgod cregyn.

**3.8 Disgrifydd 5 – Ewtroffigedd a achosir gan bobl**

**Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Mae'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Rydym yn cytuno y bydd integreiddio rhaglenni monitro sy'n bodoli eisoes i asesu statws ewtroffigedd a ddatblygwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chonfensiwn OSPAR yn cynnig sylfaen cadarn ar gyfer gofynion monitro Disgrifydd 5, ac yn rhoi asesiad cadarn o'r graddau y mae ewtroffigedd yn nyfroedd y DU wedi cael ei leihau.

Rydym yn cytuno y dylai rhaglenni unigol Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ganolbwyntio ar faterion sy'n achos pryder yn lleol a chefnogi'r broses o gydgysylltu gwaith monitro i'r DU gyfan drwy'r Grŵp Tystiolaeth o Foroedd Glân a Diogel (CSSEG).

**Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Rhan 1 o Strategaeth Forol y DU?**

Mae'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES a thargedau cysylltiedig. Rydym yn cynghori y bydd integreiddio rhaglenni monitro sy'n bodoli eisoes i asesu statws ewtroffigedd a ddatblygwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chonfensiwn OSPAR yn cynnig sylfaen cadarn ar gyfer gofynion monitro Disgrifydd 5, ac yn rhoi asesiad cadarn o'r graddau y mae ewtroffigedd yn nyfroedd y DU wedi cael ei leihau i'r eithaf.

### **Cwestiwn 3:**

**Yn amodol ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Nid oes gennym unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol.

### **Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol**

Er mwyn sicrhau bod y rhaglenni monitro a gynigir mor effeithiol â phosibl, dylid ystyried a oes dosbarthiad daearyddol digonol o fannau monitro yn nyfroedd arfordirol Cymru a'r DU.

## **3.9 Disgrifydd 7 - Amodau hydrograffegol**

### **Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Mewn egwyddor, tra'n aros am ganlyniadau'r gwaith sy'n mynd rhagddo ac ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd isod, ymddangosai fod y rhaglen fonitro a amlinellir ar gyfer Disgrifydd 7 yn debygol o fod yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb.

O ran Disgrifydd 7, deallir na chaiff unrhyw raglen fonitro benodol ei datblygu; y dull gweithredu a amlinellir yw y dylid olrhain a chofnodi ceisiadau i drwyddedu unrhyw ddatblygiadau arfaethedig sy'n ddigon mawr i newid amodau hydrograffegol o bosibl, naill ai ar raddfa eang neu ar y cyd â datblygiadau eraill.

Yn seiliedig ar y disgrifiad o'r rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer Disgrifydd 7, deallir bod nifer o dasgau yn cael eu gwneud i benderfynu a yw'r rhaglen fonitro a gynigir yn briodol. Mae un dasg yn cynnwys adolygiad o'r canllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd i ddatblygwyr ar '*ymdrin ag effeithiau hydrolegol ac effeithiau cronol fel rhan o brosesau'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (EIA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)*'. Yn yr achos hwn, bydd yn bwysig sicrhau bod y dogfennau cyfarwyddyd presennol yn ddigon cadarn i gynnwys y gofyniad i asesu nifer o nodweddion ar gyfer GES fel y'i diffinnir ar gyfer Disgrifydd 7, fel y'i disgrifiwyd yn Rhan Un o'r Strategaeth Forol. Dylai'r canllawiau i ddatblygwyr sydd i'w paratoi nodi'n fwy clir yr hyn sy'n gyfystyr â datblygiad ar raddfa fawr.

Mae astudiaethau achos hefyd wedi cael eu paratoi ar '*existing or potential future planning applications to support the assertion that the current regulatory regime is*

*sufficiently robust to ensure GES can be achieved*. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn helpu i benderfynu a yw'r gyfundrefn drwyddedu bresennol yn ddigonol neu a fydd angen unrhyw ofynion ychwanegol gan gynnwys unrhyw feichiau trwyddedu monitro neu asesu ychwanegol i'r Llywodraeth, awdurdodau trwyddedu morol neu ddatblygwyr er mwyn cyflawni targedau Disgrifydd 7 a chyflawni GES. Bydd yn bwysig bod Tîm Cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru *ac yn arbennig Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o ganlyniadau'r gwaith hwn i benderfynu a oes digon o adnoddau i reoli unrhyw ofynion ychwanegol pe baent yn cael eu nodi.*

Rydym yn croesawu ac yn cefnogi'r bwriad i ystyried effeithiau cronol posibl cynigion datblygu i benderfynu a yw'n debygol yr effeithir ar amodau hydroddynamig ar raddfa eang. Fodd bynnag, yn ôl y disgrifiad a roddwyd, ymddengys mai dim ond effeithiau cronol cynigion datblygu ar raddfa fawr a gaiff eu hystyried yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, efallai y bydd yn briodol hefyd i'r rhaglen fonitro ystyried effeithiau cronol posibl cynigion datblygu ar raddfa ganolig/lai a all gyfrannu ar y cyd tuag at newidiadau i amodau hydroddynamig ar raddfa eang

Nodwyd *"Data and information from the licensing and consents process will be stored and will be accessible, subject to appropriate licensing arrangements, by UK scientists, policymakers, the European Commission and the European Environment Agency in compliance with EC 2003/4/EC on public access to environmental information."* Mae'n bwysig cadarnhau ar y cam hwn sut y caiff y data monitro eu storio a'u rhannu rhwng y gwahanol gyrff rheoleiddio a chynghori er mwyn cadarnhau effeithiau cronol ar lefel ranbarthol ar y môr.

Ar hyn o bryd, mae'r manylion a roddwyd i ddisgrifio'r cynnig ar gyfer monitro o natur lefel uchel. Pan fydd canlyniadau'r gwaith pellach a ddisgrifiwyd uchod ar gael ac ar ôl i'r cynigion gael eu hystyried yn fanylach, efallai y byddai'n fuddiol pe bai rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar gael i helpu'n benodol i ddiffinio'r ffordd y dehonglir effeithiau hydroddynamig 'ar raddfa eang' i'w nodi er mwyn sicrhau y caiff y cynigion ar gyfer monitro eu deall a'u gweithredu yn ôl y bwriad.

Mewn egwyddor, tra'n aros am ganlyniadau'r gwaith sy'n mynd rhagddo ac ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd uchod, ymddangosai fod y rhaglen fonitro a amlinellir ar gyfer Disgrifydd 7 yn debygol o fod yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwydeb.

## **Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Rhan 1 o Strategaeth Forol y DU?**

Mewn egwyddor, tra'n aros am ganlyniadau'r gwaith sy'n mynd rhagddo ac ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd yng Nghwestiwn 1 uchod, ymddangosai fod y rhaglen fonitro a amlinellir ar gyfer Disgrifydd 7 yn debygol o fod yn ddigonol i gyflawni GES.

Gweler y sylwadau a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 1 a all hefyd fod yn berthnasol i'w hystyried mewn perthynas â'r pwynt hwn.

**Cwestiwn 3:**

**Yn amodol ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Nid oes gennym unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol.

**Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol**

O ran y wybodaeth am y prif amodau hydroddynamig, sydd ei hangen i ddatblygu llinell sylfaen, cyfeirir at sawl rhaglen fonitro a phrosiect. Fodd bynnag, ni nodir pa arsyllfeydd a sefydliadau arfordirol a morol yn y DU a fydd yn casglu'r data hyn. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Feterolegol, NOC, CEFAS ac AFBI oll yn ymgymryd â gwaith monitro cefnforegol yn nyfroedd tirioogaethol y DU. Rydym yn argymhell bod y wybodaeth sylfaenol sydd ar gael gan y sefydliadau hyn yn cael ei hystyried er mwyn pennu amodau hydrograffigol sylfaenol.

Efallai y bydd yn bosibl gwella'r set ddata sylfaenol i Gymru hefyd yn y dyfodol drwy Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru. Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru ei gynrychioli ar fwrdd y prosiect a thîm y prosiect ar gyfer Canolfan Monitro Arfordirol Cymru ac mae'n ystyried y Ganolfan yn ddarparwr allweddol posibl o ofynion monitro ffisegol yng Nghymru. Mae'r Ganolfan wrthi'n datblygu achos busnes ar gyfer y pum mlynedd nesaf i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Os caiff ei gymeradwyo, gall gynnwys gosod rhai bwiau tonnau/llanw a mesuriadau o dymheredd a halwyni mewn lleoliadau strategol. Gallai'r ganolfan hefyd chwarae rhan yn y gwaith o ddadansoddi a chyflwyno adroddiadau ar brif amodau i Gymru os bydd angen. Gan fod gweithgarwch y Ganolfan y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon yn amodol ar gymeradwyo achos busnes llwyddiannus, nid yw'r berthnasol ei nodi fel adnodd monitro ychwanegol. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol dilyn hynt y fenter hon yn y dyfodol.

### **3.10 Disgrifydd 8 – Crynodiadau o halogyddion**

**Sylwadau Cyffredinol:**

(a) Fel yr awdurdod monitro cymwys, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno bod y rhaglenni sy'n bodoli eisoes ar gyfer asesu crynodiadau o halogyddion a'u heffeithiau mewn dyfroedd arfordirol a morol a ddatblygwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol a Chonfensiwn OSPAR oll wedi'u cydgysylltu'n rhanbarthol ac maent eisoes wedi cael eu cymhwyso'n llwyddiannus i asesu statws halogi. Bydd integreiddio'r rhaglenni hyn, a'u diweddarau i adlewyrchu newidiadau yn y Cyfarwyddebau, yn cynnig sylfaen cadarn ar gyfer gofynion monitro

Disgrifydd 8, ac yn rhoi asesiad cadarn p'un a yw lefelau yn peidio â chreu effeithiau llygru, ac a yw'r statws yn gwella.

(b) Rydym yn croesawu gwaith sy'n mynd rhagddo gan grŵp CSSEG i integreiddio'r gwaith o fonitro halogyddion a ddefnyddir i weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol ar gyfer dyfroedd arfordirol a'r gwaith monitro a ddefnyddir yn Rhaglen Fonitro Amgylcheddol Gydgyssylltiedig Confensiwn OSPAR.

(c) Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r rhaglen a gynigir i fonitro'r effeithiau biolegol a nodir gan OSPAR fel dangosyddion cyffredin at ddibenion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (sef newid rhyw mewn boldroediaid ar hyn o bryd) ac unrhyw ddarpar ddangosyddion gan OSPAR y cytunir arnynt fel dangosyddion cyffredin yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r gwaith o fonitro effeithiau biolegol yn gofyn am gryn arbenigedd ac mae'n annhebygol y bydd yr adnoddau sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn ddigonol i ymgymryd ag unrhyw ofynion monitro cynyddol.

#### **Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod y rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Rydym ar ddeall bod y rhaglenni presennol ar gyfer asesu crynodiadau o halogyddion a'u heffeithiau mewn dyfroedd arfordirol a morol a ddatblygwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol a Chonfensiwn OSPAR oll yn cael eu cydgyssylltu'n rhanbarthol ac maent eisoes wedi cael eu cymhwyso'n llwyddiannus i asesu statws halogi. Bydd integreiddio'r rhaglenni hyn, a'u diweddarau i adlewyrchu newidiadau yn y Gyfarwyddebau, yn cynnig sylfaen cadarn ar gyfer gofynion monitro Disgrifydd 8, ac yn rhoi asesiad cadarn p'un a yw lefelau yn peidio â chreu effeithiau llygru, ac a yw'r statws yn gwella.

#### **Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Rhan 1 o Strategaeth Forol y DU?**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod y rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES a'r targedau cysylltiedig.

#### **Cwestiwn 3:**

**Yn amodol ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r rhaglen a gynigir i fonitro'r effeithiau biolegol a nodir gan OSPAR fel dangosyddion cyffredin at ddibenion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (sef newid rhyw mewn boldroediaid ar hyn o bryd) ac unrhyw ddarpar ddangosyddion gan OSPAR y cytunir arnynt fel dangosyddion cyffredin yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r gwaith o fonitro effeithiau biolegol yn gofyn am gryn arbenigedd ac mae'n annhebygol y bydd yr adnoddau sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn ddigonol i ymgymryd ag unrhyw ofynion monitro cynyddol.

Nodwn y bydd y broses o ddiwygio'r Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol yn 2015 yn gofyn am ystyried 15 o sylweddau ychwanegol, ynghyd â rhestr wylio i'w gwneud yn bosibl i sylweddau sy'n achos pryder o bosibl gael eu monitro mewn ffordd wedi'i thargedu drwy'r UE gyfan. Caiff y rhaglenni monitro a gynigir

#### **Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol**

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 3.

### **3.11 Disgrifydd 9 – Halogyddion mewn pysgod a mathau eraill o bysgod cregyn**

#### **Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Mae'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Rydym yn cytuno y bydd yr arolygon manwerthu blaenorol o fwyd y môr, wedi'u hategu gan ymchwiliadau newydd i lefelau halogyddion ym mwyd y môr a ddaw o bysgodfeydd masnachol hysbys ym Môr y Gogledd a'r Môr Celtaidd, yn sylfaen cadarn ar gyfer gofynion monitro Disgrifydd 9 – halogyddion mewn pysgod a mathau eraill o fwyd y môr.

Rydym yn deall bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal ymchwiliadau i lefelau halogyddion mewn pysgod a mathau eraill o fwyd y môr a ddaw o bysgodfeydd masnachol yn Môr y Gogledd a'r Môr Celtaidd, gan dargedu rhywogaethau â risg uwch a nodwyd mewn arolygon manwerthu blaenorol. Byddem yn croesawu eglurder a mwy o fanylion ynglŷn â sut y caiff ymchwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ei ddefnyddio i ddatblygu rhaglen fonitro goruchwyliaeth a gweithredol yn y dyfodol. Byddem hefyd yn croesawu cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y pennwyd y safonau asesu.

#### **Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Strategaeth Forol y DU, Rhan 1?**

Mae'r rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES a'r targedau cysylltiedig.

**Cwestiwn 3:**

**Yn amodol ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Nid ydym yn cynnig unrhyw raglenni monitro ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod prinder gwybodaeth ar hyn o bryd ynglŷn â bwyd y môr sy'n cael ei fwyta gan bobl a ddaw o ddyfroedd y DU ac mae'n croesawu'r bwriad i gyflwyno'r ymchwiliad wedi'i dargedu mewn pysgodfeydd masnachol ym Môr y Gogledd a'r Môr Celtaidd.

**Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol**

Nid oes gennym unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol.

### **3.12 Disgrifydd 10 – Sbwriel morol**

**Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Nid yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Mae'r arolygon datblygedig o sbwriel ar draethau a weinyddir gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn ddigonol i fonitro'r targed o leihau nifer yr eitemau o sbwriel gweladwy yn gyffredinol o fewn mathau penodol o forliniau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai dim ond lle ystyrid bod digon o dystiolaeth wyddonol i'w cefnogi y cynigiwyd targedau. O ganlyniad, ni chynigiwyd targedau ar gyfer elfennau o'r Disgrifydd am fod dealltwriaeth annigonol o lefelau'r mathau hyn o sbwriel, eu tarddiad a'u heffeithiau. Nodwn mai dyma pam mae'r dull gweithredu a gynigir ar gyfer sbwriel môr-waelodol a sbwriel yn y golofn ddŵr yn dibynnu ar ddangosyddion goruchwyliaeth ac rydym yn croesawu canlyniadau'r gwaith monitro i gefnogi'r dangosyddion goruchwyliaeth er mwyn datblygu targedau cadarn ar gyfer 2018.

Rydym ar ddeall bod Cefas wrthi'n datblygu opsiynau ar gyfer rhaglen monitro sbwriel môr-waelodol i ddyfroedd Cymru a Lloegr. Bydd yr opsiynau yn seiliedig ar yr arolygon presennol, yn cynnig rhaglen sy'n gadarn yn ystadegol ac yn ystyried parthau lle mae



sbwriel yn cronni. Disgwylir penderfyniad ynglŷn â sut y caiff y rhaglen ei datblygu, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â'r lle gorau i goladu data a gwybodaeth am sbwriel môr-waelodol, erbyn 2014. Os bwriedir i Cyfoeth Naturiol Cymru chwarae rôl yn y gofynion monitro ychwanegol ar gyfer sbwriel morol, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r goblygiadau o ran cost ac adnoddau.

**Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Rhan 1 o Strategaeth Forol y DU?**

Nid yw'r rhaglen fonitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES a'r targedau cysylltiedig. Gweler yr ymateb i Gwestiwn 1.

**Cwestiwn 3:**

**Yn dibynnu ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Mae nifer o brosiectau goruchwyliaeth neu fonitro posibl y gellid eu sefydlu er mwyn mesur cynnydd tuag at GES. Er enghraifft, gellid ystyried monitro eitemau o sbwriel o fewn nythod adar y môr, monitro presenoldeb micro blastigion mewn gwaddodion sy'n cael eu casglu ar gyfer dadansoddiad o infertebratau/maint gronynnau a monitro presenoldeb sbwriel o fewn traethellau mamaliaid morol.

**Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol?**

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 3 uchod.

### **3.13 Disgrifydd 11 – Sŵn tanddwr**

**Sylwadau cyffredinol:**

(a) Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod prinder data ar hyn o bryd i roi asesiad meintiol o'r statws cyffredol a thueddiadau o ran sŵn tanfor ym moroedd y DU. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod angen gwneud gwaith ymchwil, monitro ac ymchwilio pellach er mwyn deall effeithiau sŵn ar rywogaethau symudol yn llawn ac arwyddocâd cyflwyno sŵn yn yr amgylchedd morol ac er mwyn gallu cynnig opsiynau priodol i weithio tuag at gyflawni Statws Amgylcheddol Da (GES). Felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i nodi opsiynau addas ar gyfer rhaglenni monitro sŵn tanfor.

Rydym yn cydnabod na fu modd i'r gymuned arbenigol, hyd yma, argymhell targedau *penodol* ar gyfer synau ergydol neu awyrgylchol sy'n cyfateb i GES ac, yn lle hynny,

mae targedau *gweithredol* ar ffurf 'cofrestr o sŵn' yn cael eu datblygu ar gyfer sŵn ergydol ac mae 'dangosydd goruchwyliaeth' yn cael ei ddatblygu ar gyfer sŵn awyrgylchol.

Rydym yn cydnabod mai megis cychwyn y mae'r gwaith o fonitro sŵn tanfor a bod "...considerable uncertainties with respect to the current levels and impacts". Nodwn fod yr UK-MMPCR yn cydnabod bod angen parhau â'r gwaith ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig â chadarnhau targedau, dangosyddion a chynigion monitro ar gyfer D11 ac y bwriedir i'r gwaith hwn barhau tan 2018. Mae hyn yn arbennig o wir am ddatblygu llinellau sylfaen cadarn i

archwilio effeithiau sŵn awyrgylchol a achosir yn anthropolegol. Felly bydd y Rhaglen Fonitro yn strategaeth a fydd yn datblygu dros amser gan na fydd cyfres lawn o ddangosyddion yn weithredol tan fis Gorffennaf 2014.

(b) Er gwaethaf y wybodaeth gyfyngedig yn atodiad D11, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynigion monitro a amlinellir yn yr UK-MMPCR yn gyffredinol ynghyd â'r angen i ddatblygu'r gofynion monitro ymhellach ar gyfer D11. Rydym hefyd yn cefnogi'r angen am waith ymchwil a datblygu cydweithredol i nodweddu targedau, dangosyddion a mesurau addas ac ystyrlon ar gyfer D11. Fodd bynnag, wrth ystyried rhaglen(ni) monitro sŵn addas, hoffem dynnu sylw at y sylwadau canlynol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u gwneud o'r blaen ac yr ydym yn teimlo bod angen eu hystyried yn ofalus o hyd:

I. Erys angen dybryd o hyd i safoni nifer o feysydd allweddol, er mwyn i raglen monitro sŵn Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol lywio'n *effeithiol* y gwaith o nodi a datblygu mesurau i reoli effeithiau sŵn yn yr amgylchedd morol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Mydryddiaeth a modelu sŵn.
- Terminoleg
- Cyfarpar a dulliau monitro
- Y ffordd y llunnir rhaglenni monitro
- Pennu sut y caiff effeithiau sŵn ar fywyd gwylt morol eu hasesu mewn gwirionedd
- Pennu meini prawf arwyddocâd a throthwyon amlygu
- Pennu sut y caiff y data eu dehongli a'u gwerthuso

II. Mae'r penderfyniad mai 'cofrestr o sŵn' yn y DU fydd y prif fesur cychwynnol a gymerir mewn perthynas â sŵn yn codi nifer o faterion a godwyd o'r blaen gan Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Bydd angen i'r gofrestr fod yn gynhwysfawr ac yn gweithredu ar sail gydgyssylltiedig a chyson ledled y DU;

- Dylai pob ffynhonnell bosibl o sŵn amledd isel ac ergydiol gael ei nodi i'w chynnwys yn y gofrestr;
- Mae angen eglurder ynghylch p'un a gaiff y gofrestr o sŵn ei defnyddio i lywio asesiad o'r effeithiau tebygol ar fywyd gwyllt morol, ac yn bwysig ddigon, sut y caiff ei defnyddio, ac a ellid nodi unrhyw 'ysgogwyr' neu drothwyon ar gyfer mesurau rheoli (ymaddasu) yn y dyfodol - bydd angen i unrhyw raglen fonitro ystyried hyn wrth iddi gael ei llunio;
- Mae angen eglurder o ran sut y caiff y gofrestr o sŵn ei throi'n 'gamau gweithredu'.

### **Cwestiwn 1:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb, o gofio'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth?**

Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y bylchau a'r cyfyngiadau presennol yn ein sylfaen gwybodaeth ar gyfer sŵn tanfor, nid ydym yn meddu ar yr arbenigedd technegol i fedru rhoi cyngor ynghylch a yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y disgrifydd hwn yn ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb ai peidio. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynigion monitro a ddisgrifir ar hyn o bryd yn yr UK-MM CPR yn gyffredinol, ond hoffem dynnu'ch sylw at y '*Sylwadau cyffredinol*' uchod.

### **Cwestiwn 2:**

**A yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y Disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES, a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Strategaeth Forol y DU, Rhan 1?**

Nid oes sicrwydd ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â GES o ystyried y wybodaeth brin am sŵn tanfor ar hyn o bryd. Nid yw'r Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo bod modd ateb y cwestiwn yn hyderus ar yr adeg hon. Mae'n bwysig ailbwysleisio nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn meddu ar yr arbenigedd technegol i fedru rhoi cyngor ynghylch a yw'r rhaglenni monitro a gynigir ar gyfer y disgrifydd hwn yn ddigonol i arwain y cynnydd tuag at gyflawni GES a'r targedau cysylltiedig, fel y'u nodwyd yn Rhan 1 o Strategaeth Forol y DU. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynigion monitro a ddisgrifir ar hyn o bryd yn yr UK-MM CPR yn gyffredinol, ac mae'n cefnogi'r bwriad i barhau i ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu cydweithredol yn y maes hwn er mwyn pennu targedau, dangosyddion a chynigion monitro penodol ar gyfer D11. Fodd bynnag, hoffem dynnu'ch sylw at y '*Sylwadau cyffredinol*' uchod.

### **Cwestiwn 3:**

**Yn amodol ar yr ateb i Gwestiwn 2, a oes angen unrhyw raglenni monitro ychwanegol er mwyn cyflawni GES a'r targedau cysylltiedig ar gyfer y Disgrifydd hwn?**

Gweler '*Sylwadau cyffredinol*' uchod

**Cwestiwn 4:**

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhaglenni monitro ychwanegol neu fwy effeithiol?**

Ym marn Cyfoeth Naturiol Cymru, mae angen datblygu cynigion monitro ar gyfer D11 ymhellach ac mae angen rhagor o fanylion cyn y gellir ateb y cwestiwn hwn yn hyderus.

**Am ragor o wybodaeth am ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru, cysylltwch â:**

**Henry Aron, Cynghorydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol**

**Henry.Aron@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**01248 387361**